YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 11. TACHWEDD, 1924. PRIS, 3c.

.. CYNHWYSIAD...

AR ADEN FFYDD.
MARW
REES JENKIN JONES, M.A.
PRYDFERTHWCH AC ANFARWOLDEB.
UNDODIAETH: OL-OLWG, &c.
GWAEDGI'R NEFOEDD.
LLYTHYR DIDDOROL.
PAUL—AMDDIFFYNYDD RYDDID YSBRYDOL.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.
"AUDRY."

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Geiriadur Beiblaidd

Y GWAITH PWYSICAF AR Y BEIBL A GYHOEDDWYD YN GYMRAEG. . .

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.

— Pris 1/6 y Rhifyn. —

I'W GAEL O—

Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul.

—AIL GASGLIAD O—
EMYNAU A THONAU

. . AT WASANAETH . .

Cymanfa Gerddorol Undodaidd Ceredigion.

Pris 9c., Amlen Bapur. Gellir cael Copiau wedi eu rhwymo mewn Llian—*Cloth Binding, 3s. 6c.*

Anfoner i Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1924. [CYF. XXIV. RHIF 11.

AR ADEN FFYDD.

CADARN DWR.

1

Chwi holl drigolion daear gron,
Rhowch heibio'ch nôs o dristwch;
A gwnewch yn llawen oll o'r bron
A Duw y lluoedd molwch!
Deyrnasoedd byd o'r bron
Gwas'naethwch ef yn llon;
Dewch ag anfarwol gân
Yn dyrfa fawr o'i flaen,
Yn wastad yn oes oesoedd.

2

Efe yn unig sydd yn Dduw—
Ein Bugail yw a'n Ceidwad;
Ei eiddo ym, a'n heiddo yw,
Rhown iddo ein haddoliad.
Fel pobl ei braidd, ni gawn
Ddanteithion melus iawn;
Fe rydd i bob yr un
O'i ddefaid felus hûn,
Yn wastad yn oes oesoedd.

3

'Nawr i'w gynteddau awn i fewn,
A cherdd a chân diolchwn;
A'r byth-dragwyddol Dduw, yn [ewn,
A chalon lawen molwn!
A phur aroglau per
Rhown ddiolch i Dduw Ner;
Mawrhawn ei enw da,
Ei gariad a barha,
Yn wastad yn oes oesoedd.

4

Duw graslawn yw ein Harglwydd
Fe wrendy'n cwynion bythol; [ni
Ei drugareddau'n sicr sy',
A'i gariad yn dragwyddol;
Tymhorau i ffwrdd yr ânt,
Cenhedloedd darfod wnant;
Ond cadarn air ein Duw,
Arweinia'n ie'nctyd gwiw,
Yn wastad yn oes oesoedd.

Cyf. R J.J. STOPFORD AUGUSTUS BROOKE, 1832—1916.

MARW REES JENKIN JONES, M.A.

BLIN gennym gofnodi marwolaeth y Parchedig R. J. Jones, o Aberdar, yr hyn gymrodd le dydd Mercher, Hydref 15, ac efe yn 89 mlwydd oed er Medi 17eg, diweddaf. Bwriedir cyhoeddi rhifyn Rhagfyr yn rifyn Coffadwriaethol, pryd y ceir nifer o ysgrifau gan nifer o lenorion adnabyddus, gawsant adnabyddiaeth agos o Mr. Jones. Bu i Mr. Jones oes faith, ddefnyddiol a gwasanaethgar. Dechreuodd Mr. Jones ysgrifennu i'r YMOFYNYDD yn y flwyddyn 1857, ac y mae ffrwyth ei ysgrifell i'w ganfod yn y rhifyn hwn, a gwir y gellir dweyd ei fod er wedi marw yn llefaru eto.

* * *

Ymddangosodd y nodiadau isod yn y "Darian," ac y mae yn bleser gennym eu gosod yn YR YMOFYNYDD fel arweiniad i mewn i'r hyn fydd yn canlyn yn ein rhifyn nesaf. Bydd yn bleser gennym dderbyn pob help, ac awgrym er gwneud y rhifyn hwnnw yn deilwng o'r gwrthrych.

* * *

Ganed Mr. Jones yn Nhrecynon, Aberdar, Medi 17, 1835. Addysgwyd ef gyntaf gan ei dad, y Parch. John Jones, gweinidog Undodaidd yr Hen Dy Cwrdd, wedi hynny yng Ngholeg Diwinyddol Caerfyrddin, ac ym Mhrif Ysgol Glasgow, lle y graddiodd yn M.A., yn 1863. Wedi gorffen ohono ei yrfa athrofaol, daeth yn olynydd i'w dad fel gweinidog yr Hen Dy Cwrdd, ac oddi eithr am dymor byr yn herwydd afiechyd, bugeiliodd yr eglwys yn y lle uchod hyd ei ymddiswyddiad yn 1909, cyfnod o chwe' mlynedd a deugain. Dilynodd ei dad hefyd fel athro yr Ysgol Ramadeg enwog a fu'n feithrinfa cynifer o wyr llen a lleyg o ardal Aberdar, a mannau eraill, cyn dyddiau'r ysgolion canol. A diddorol a fyddai gwybod pa sawl gwr a ddaeth wedi hynny i gryn fri yng Nghymru, mewn byd ac eglwys, a gawsai'r fraint o'i hyfforddi yn nechreu 'i yrfa yn hen 'Ysgol Jones' (fel y'i gelwid). Diau y gellid gwneud rhestr fawr ac anrhydeddus.

* * *

Bu i'r gwr tra pharchedig o'r Hen Dy Cwrdd ran amlwg iawn ym mywyd llenyddol Cymru. Bu'n Olygydd yr YMOFYNYDD am flynyddoedd; ei ddelw ef a welir amlycaf ar Lyfr Emynau'r Undodwyr Cymreig, a chynnwysa amryw o'i emynau ef ei hun, ac o'i gyfieithiadau gwych o emynau goreu'r Saeson. Cyhoeddodd hefyd amryw lyfrau megis yr ail argraffiad o "Afalau'r Awen," gwaith Edward

Ifan, y Ton Coch (os na chamgofiaf), a rhai pamffledau a llyfrynnau gwerthfawr eraill. Ysgrifennodd hefyd rai erthyglau i'r "*Dictionary of National Biography*," ac amryw lithoedd a nodion hynafiaethol gwerthfawr i'n cylchgronau cenedlaethol Cymreig; a bu dda gan wŷr fel y diweddar Syr John Rhys, Rhydychen; Dr. Gwenogfryn Evans, a Syr Owen M. Edwards ymgynghori ag ef o bryd i bryd ar faterion o bwys hanesyddol. Ac nid anfynych y gwelwyd y llythrennau T.C.U. ac S.N.S. wrth aml nodyn diddorol yn y newyddiaduron. Eiddo'r hynafieithydd clodwiw Rhys Jenkyn Jones oedd rheiny bob un, a mawr y wybodaeth werthfawr o'r dyddiau fu, yn enwedig am hanes bore dyffryncedd Aberdar a Merthyr, a drysorwyd ganddo yn ei ysgrifeniadau a'i lawlyfrau lluosog. Mawr obeithiwn y daw rhyw gennad o ladmerydd hyfedr heibio a golygu'r cynhyrchion pwysig hyn, a'u cyhoeddi rhagllaw er budd i genedlaethau Cymru Fydd.

* * *

Diau y galerir ar ol Rhys Jenkin Jones gan Gymru gyfan, oblegid daeth ei enw i fod yn air teuluaidd ymhlith hiliogaeth ddarllengar y Cymry er's tro byd. Am danom ni yn Aberdar, nid yn ebrwydd y derfydd ein chwithdod o golli gwr mor hoffus ac amlwg ag ef o'n plith. Canys bu wiw gan ei gyd-drefwyr oll, heb ystyried na phlaid nac enwad na thylwyth, ei gyfrif yn dad iddynt. Pan gychwynwyd Cymdeithas y Cymrodorion yn y lle tua deunaw mlynedd yn ol, barnwyd y byddai cael Rhys Jenkin Jones yn llywydd cyntaf iddi yn anrhydedd nid bychan arni. Cydsyniodd yntau a'r alwad er mawr lawenydd i'r aelodau, a bu'n aelod disglair a ffyddlon o'r gymdeithas hyd ei ddyddiau olaf. Nid anniddorol crybwyll ar ddiwedd hyn o deyrnged i'r gwr sydd heddyw yn ei arch mai ef oedd dinesydd hynaf Aberdar weithian, er bod Mr. John Mills (Tariannydd) yn un mlwydd ar ddeg a phedwar ugain; ond yn Llanidloes y treuliodd ef ei ddyddiau cynnar.

R. W.

PRYDFERTHWCH AC ANFARWOLDEB.

NID oes gan yr anifail yr un gwerthfawrogiad o'r prydferth. Lledaena'r ceiliog paun ei gynffon er mwyn denu y rhyw fenywaidd, ond y mae'n hollol o'r prydferth. Nid yw'r parch serchus, caruaidd, sydd gan y ci tuag at ei feistr ddim yn cynnwys un math o gydnabyddiaeth o'i brydferthwch corfforol na moesol.

Ond mae'r anwarddyn mwyaf isel yn cael ei wefreiddio trwyddo gan brydferthwch corff, ac mae'n alluog i godi, ar ol cael addysg, i sylweddoliad o brydferthwch moesol. Fe genfydd y gwahanol

liwiau, ysgarlad, melyn, a glasgoch, ar y cwmwl a'r wybren, ac fe eilw weithred o serch pur yn "brydferth."

Yn yr afradlonaf o fywydau, ymddengys y gydnabyddiaeth o'r prydferth yn debyg i ryw fflach o oleuni yn y tywyllwch ofnadwy; ac nid oes ond ychydig a allant wthsefyll dylanwad gallu y rhai sydd wedi caniatau i'w natur esgyn i'r prydferth. A phaham nad oes gan brydferthwch ei brophwydoliaeth? Oddiwrth wreiddiau tywyll a chuddiedig y pren afalau yr ymarllwysa'r ffrydiau sydd yn trawsnewid i'r blodau gwyn a choch. Nid ydym yn gwybod sut y mae dyrnaid o glai yn cael ei drawsnewid i brydferthwch a phersawredd y pine, y carnasiwn, a'r rhosyn; ond yn fynych ni a welwn yr enaid yn tyfu yn fwy prydferth fel y mae'r corff yn pasio i dywyllwch henaint. Mor rhyfedd yw trawsnewidiad y ddaear arw i ffurfiau'r delfrydol.

Canys nid yw'r enaid ond y materol (?) yn pasio yn naturiol i'r ysprydol. Mae rhywun wedi dweyd nad yw "materoliaeth" ac "ysprydolrwydd" yn ddim ond geiriau ffein. Ond y maent yn dynodi meddylddrychau tragwyddol. Nid yn unig dynodant drawsnewidiad y materol i brydferthwch anianol, fel y gwelwn ni ar bob llaw, ond hefyd ei drawsnewidiad i brydferthwch deallol a moesol.

Mae'n daith hir i fater drafaelu, feallai filiynau o flynyddau, cyn y daw at y Groes. Paham na ddichon drafaelu eto'n mhellach—mor bell a thragwyddoldeb? Mae ein natur foesol yn ein lincio wrth y ser—wrth anfeidroldeb.

A phwy yn y bywyd diflannol hwn sydd wedi dihyspyddu ei gymwysderau at alar, at lawenydd, at greadigaeth? A ddaru i Micel Angelo, neu Raphael, neu Newton? Ni all neb ddweyd, "Mae fy ngwaith wedi ei wneud, mae fy mywyd wedi ei orphen."

Nid oes amheuaeth nad oes mewn miliynau o bobl syched anniwall am fywyd, am anfarwoldeb. Yn awr y mae'n eithaf posibl fod yr un gallu a osododd y syched hwn am anfarwoldeb, wedi trefnu hefyd ar iddo gael ei sylweddoli.

Rhaid ini beidio tybio fod yr un meddwl yn rhy fawr neu yn rhy brydferth i fod yn wir. Fe esgyn yr enaid dynol i fyny ato. Ac i un sydd wedi esgyn i'r prydferth, nid ymddengys yn mhell i esgyn i'r anfarwol. Prydferthwch sydd yn dadguddio'r dwyfol ynom ni, ac yn sicr nid yw'r cam yn hir oddiwrth y dwyfol at yr anfarwol. Nid ymddengys yn rhyfygus i'r enaid dynol sydd yn meddu'r gallu i edmygu'r prydferth i ddyheu am anfarwoldeb.

Fe gydnabyddir yn wastad fod creadigaeth y prydferth yn un o deithi uwchaf yr enaid dynol. Pe gosodid Fenus y Louvre, Madonna Raphael, neu Eglwys Gadeiriol San Marco, ar un o'r ser sydd fil o weithiau yn fwy na'n haul ni, hwy a gymerent eu lle yn Oriel y prydferth.

Mae'n amheus a oes yna'r un seren sydd yn codi ac yn machlud yn ddisylw, ac yn pelennu ei hun mewn prydferthwch yn gwneuthur unrhyw fywyd yn burach neu yn gryfach.

Mae'r Gwanwyn yn fy enaid i yn rhagddarlunio y Gwanwyn

tragwyddol yn y nen, canys fe ymddengys y nen yn dryloyw. Trwyddo disgleiria lewyrch bydoedd anweledig—Nefoedd. Ond fe ddeallai fod unrhyw ddyn deallus edrych yn mlaen am dani yn ddiwrthwynebiad yn Nefoedd i'r iselaf (fel yr ydys yn eu galw weithiau) yn ogystal ag i'r uwchaf, i'r pechadur yn ogystal ag i'r saint.

UNITY.

UNDODIAETH: OL-OLWG, AMGYLCH-OLWG, A BLAEN-OLWG.

(Parhad o rifyn Hydref.)

(B) AMGYLCH-OLWG.

Beth am sefyllfa bresennol Undodiaeth? A barnu'r sefyllfa yn ol fel y cynrychiolir Undodiaeth gan yr enwad Undodaidd, rhaid cydnabod na welir arwyddion amlwg iawn o gynnydd; yn wir, nid sicr wyf ein bod, fel enwad, yn dal ein tir—nac yn y wlad hon nac yn un wlad arall. Ffaith annymunol a digalon yw hon inni, yn ddiameu; ond ffaith ydyw er hynny; ac nid da anwybyddu ffeithiau.

Y mae'n gysur inni, fodd bynnag, mai dim ond un ochr i'r ddalen yw hyn, a bod iddi ochr arall; ac ar y wyneb hon rhoddir inni olwg mwy dymunol a chalonogol ar y mater, sef, os nad yw'r enwad Undodaidd yn cynhyddu, fod syniadau Undodaidd, yn raddol ond yn sicr, yn gweithio eu ffordd i Eglwysi Cristionogol, gan agweddu os nad cyfnewid eu syniadau, yn enwedig gan feithrin ysbryd mwy rhyddfrydig. Y mae'r iawnffyddiaeth hagr a ffynnai mor gyffredinol tua chanrif yn ol wedi mynd ymron yn llwyr, ac y mae iawnffyddiaeth arall, mwy rhyddfrydig, a mwy cydweddol â rheswm ac â theimladau gore'r natur ddynol, wedi dod yn ei lle; a chredaf y gwelir arwyddion fod hon, eto, ar roddi lle i iawnffyddiaeth mwy rhyddfrydig fyth, a llawer mwy cydweddol â rheswm ac â theimladau gore ein natur.

Ni ddywedaf fod y byd Cristionogol yn rhuthro megis ar draws ei gilydd yn ei awydd i fabwysiadu syniadau Undodaidd; pe dywedwn hyn, dywedwn yr hyn nad yw'n wir, er ei fod yn wir i ryw fesur; eithr cyfeirio a wnaf at yr agweddiad ar syniadau sydd wedi digwydd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diweddaf.

Y mae'r byd Cristionogol iawnffyddol, yn ystod y blynyddoedd diweddaf, wedi bod yn brysur yn ymfyddino i ddwyblaid fawr—un yn dal dros lynu'n dyn with yr hen iawnffyddiaeth, y llall yn bleidiol i iawnffyddiaeth mwy rhyddfrydig a rhesymol. "A wado hyn aed â hi, a gwaded i'r haul godi." Eithr y mae'n rhy amlwg i neb feiddio ei wadu.

Testun llawenydd yw hyn inni, oblegid gwelwn na fu llafur y tadau Undodaidd, a llafur y genhedlaeth bresennol o Undodiaid, belled ag y mae'n cyrraedd, wedi'r cyfan, yn hollol ofer.

(C) BLAEN-OLWG.

Cwestiwn a gyfyd o'r hyn a ddywedwyd yw — ydyw'r ffaith fod

syniadau mwy rhyddfrydig a rhesymol yn ennill tir tu allan i ffiniau ein henwad ddim yn gwneud i ffwrdd â'r angen am yr enwad Undodaidd? Ai nid yw'r amser wedi dod inni ymffwys ar ein rhwyfau, ac ymollwng gyda'r llif, dan yr argraff fod ein gwaith arbennig wedi'i orffen? I'm tyb i, ateb nacaol yw'r unig ateb i'r fath ar ofyniadau a hyn; neu, yn hytrach, ateb cadarnhaol yn y ffurf a ganlyn — fod gennym genadwri gwerth llafurio drosti, a bod cymaint o angen dwyn tystiolaeth dros y genadwri hon heddyw ag erioed. Oblegid y mae'r lluaws, ymhob gwlad, heb erioed glywed ei hacenion melus a thyner, anogaethol ac enaid-foddhaol. A chredaf mai Efengyl Undodiaeth yw'r unig Efengyl fedr fodloni anghenion a dyheadau dyfnaf y genhedlaeth ddiwylliedig sy'n codi.

Efengyl Undodiaeth! medd rhywun, gyda thôn ddiystyrllyd; oblegid yr argraff ar feddwl y lluaws yw, nad oes gan Undodiaeth un math ar Efengyl. Eithr, i'm tyb i, dyna'r unig beth yn addysg y byd Cristionogol a wir deilynga'r enw. Ai nid Efengyl (neu newydd da) yw—fod yna Un Duw anfeidrol berffaith yn eistedd ar orsedd y bydysawd; fod yr un Duw hwn yn gariad ac yn Dad cyffredinol; fod y ddynoliryw i gyd yn blant iddo, wedi'n bwriadu i dyfu i fod yn un frawdoliaeth fawr; fod gennym, yn Iesu, arweinydd digonol ar daith bywyd, a'n dwg, ond inni ei ddilyn yn ffyddlon, i'r iawn berthynas â Duw ac â dyn; fod dyn, a grewyd ar ddelw Duw, wedi'i fwriadu i esgyn nes dod o hono i'r un fath ar undeb â Duw ag a sylweddolwyd gan Iesu; a bod gennym sail ddigonol dros credu "na chollir dim un bywyd byth, na theflir dim i ddamniol nyth, pan ddygo Duw i ben Ei waith," ac y "try pob gaua'n wanwyn gwyrdd," i "bawb, ryw ddydd" Ai nid Efengyl yw hyn? Os na, wn i ddim beth yw ystyr y gair Efengyl. Ydyw, y mae hyn yn Efengyl; a'r un Efengyl ydyw ag a gyhoeddwyd gan y Pen Athraw ei hun.

A gelwir arnom ni i wneud a allwn i'w thaenu—i wneud a allwn i'w dal i fyny "fel baner ar y mynydd uchel." *Ydym ni'n ddigonol i'r gwaith?*

Yn agos i ddeucant o flynyddoedd yn ol—yn 1738—daeth i galon dyn ieuanc yr hyn a elwir yn droedigaeth. Enw'r dyn ieuanc oedd John Wesley—enw sydd, erbyn hyn, yn adnabyddus drwy'r holl fyd Cristionogol. Gafaelodd y weledigaeth newydd yn ei galon gyda'r fath nerth fel y penderfynodd gysegru ei fywyd i'r gwaith o Efengyleiddio'i wlad a'r byd. A heddyw, deucant o flynyddoedd ar ol hynny, y mae, yn yr hollfyd Cristionogol, oddeutu deng miliwn ar hugain o fobl yn cydnabod eu hunain yn Wesleyaid. Beth sy'n cyfrif am hyn? Tarddodd y cwbl o'r brwdfrydedd a enynnwyd yng nghalon dyn ieuanc gan y ffydd angherddol yn Iesu a ddeffrowyd yn ei galon gan ei droedigaeth.

Yr wyf wedi synnu lawer gwaith na fuasai Efengyl Undodiaeth wedi ennyn yr un fath ar frwdfrydedd yng nghalon rhywun o'i choleddwyr i gysegru ei fywyd, fel Wesley, i geisio ennill dynion i'w chofleidio.

Neu, gadewch inni droi i gyfeiriad arall am enghraifft gyffelyb o frwdfrydedd; yn ddiweddar, darllenais ddisgrifiad o olygfa gyffredin iawn yn ein trefydd a'n dinasoedd mawr. "Yn un o heolydd y Brif-ddinas," meddai'r ysgrifennydd, "gwelais ddwy ferch ieuanc, o Fyddin yr Iachawdwriaeth, yn chwilio am fan cyfleus, ar ymyl yr ystryd, i annerch torf o fobl oedd wedi ymgynnull; ac ar ol iddynt gael eu bodloni, esgynodd un o honynt i ben blwch pren, ac anerchodd y dorf, gydag effaith a ymddangosai i mi yn drydanol, i'r perwyl a ganlyn: 'Yr ydych yn afradloniaid,' meddai wrthynt, 'yr ydych wedi crwydro o dy eich Tad; yr ydych yn gwrthryfela yn ei erbyn bob dydd A ellwch ryfeddu, felly, fod cymaint o newyn a gormes a thrueni yn dod i'ch rhan. Er

gwaethaf y cwbl y mae eich Tad yn eich caru. Y mae'n erfyn arnoch i ddychwelyd ato; i droi eich cefn ar eich pechodau; i adael eich gweithredoedd drwg; i roddi i fyny'r ddiod feddwol, ac i ymwrthod â gwasanaeth y diafol. Y mae'n awyddus i'ch achub; y mae yn eich disgwyl; y mae ei freichiau'n lled-agored i'ch derbyn. Dewch ato'n awr. Y mae Duw yn gariad. Y mae'n fy ngharu i. Y mae'n eich caru chwi bob un o honoch. Y mae'n caru pawb. Y mae'n awyddus i achub pawb.'" Efengyl o gariad Duw yw hon — Efengyl o gariad Duw'n chwilio am ei blentyn sydd wedi crwydro, ac yn para i'w chwilio hyd onis caffo. A sylwn sut y mae'r Efengyl hon yn gafaelyd yn holl enaid y bechgyn a'r merched hyn, ac yn eu gyrru allan i'r byd i'w chyhoeddi.

A dyna sut Efengyl sydd gan Undodiaeth—Efengyl o gariad Duw at bob plentyn o'i eiddo; cariad Duw yn dilyn ei blentyn sydd wedi crwydro, ac na ddyry i fyny i'w chwilio hyd y ca afael ynddo, a'i ddwyn adref i'w fynwes Dadol ei hun. Ai nid syndod ydyw—ni allaf lai na gofyn y cwestiwn hwn unwaith eto — na ddeffroai'r fath ar Efengyl ogoneddus y fath frwdfrydedd yn ei phroffeswyr a berai iddynt (yng ngeiriau'r Apostol) "i fod yn ewyllysgar i dreulio ac ymdreulio" yn yr ymgais i'w thaenu.

Llwyr argyhoeddedig wyf fod gennym Efengyl eill fodloni gofynion meddyliol a dyheadau ysbrydol y lluaws deallgar ymhob gwlad. A gelwir arnom ni, ydym wedi cael y fraint o fyw yn ei goleuni cysurlawn ac annogaethol, i ymdaflu â'n holl enaid i'r gwaith o'i chyhoeddi a'i thaenu. Ac unwaith eto daw'r gofyniad i'm meddwl — ydym ni'n ddigonol i'r gwaith.

Duw, o'i gariad, a gyfranno inni fesur llawn o'r ysbryd a'n gwna'n ffyddlon i'n cyfrifoldeb mawr.

GWAEDGI'R NEFOEDD.

Penawd hynod. Cais yw i Gymreigio enw darn o farddoniaeth Saesneg o waith Francis Thompson, "The Hound of Heaven." Y mae wedi bod yn destun pregeth gan lawer un eisioes; ond nid wyf wedi gweled un cyfeiriad ato hyd yn hyn yn YR YMOFYNYDD. Am hynny fe oddefir inni, feallai, i wneud ychydig sylwadau, gan ddilyn megis o hirbell, ac eto mewn byr eiriau, bregeth y diweddar Barch. J. Lloyd Jones, Chicago. Gesyd Dr. Jones uwchben ei bregeth y geiriau hyn :—

"Above all nations is God" - *Prime Minister of Holland.*

Cymer yn destun eiriau y Salmydd (cxxxix. 8) :—"Os cyweiriaf fy ngwely yn Uffern, wele di yno."

Sylwed y darllenydd ar y testun, a meddylied beth yw'r ystyr. Duw yn Uffern! Nid dyna'r syniad cyffredin. Yn ol y dyb boblogaidd, fe berthyn y Deyrnas hono i'r Diafol. Mae'r Diafol wedi chwareu rhan bwysig yn hanes crefydd Cymru. Tybir fod dechreuadau'r hanes wedi eu cael o'r Beibl; ond i John Milton y perthyn yr anrhydedd amheus o'i gwbllhau fel y mae yn meddiant rhai o bregethwyr Cymru, ac ail law yw gyda'r mwyafrif o'r rhai hynny hyd heddyw. Fel darlun mewn barddoniaeth y mae Satan Milton yn odidog. Yn ol yr hanes hwnnw, Satan ddarfu daflu'r cread, yr hwn oedd wedi ei gyhoeddi oll yn dda, i ddyryswch ac annhrefn. Yr oedd Milton yn ysgrifenu cyn geni Darwin.

Fe gofia'r darllenydd y modd y mae "Coll Gwynfa" yn dechreu :—

"Of man's first disobedience and the fruit
Of that forbidden tree, sing heavenly muse."

Y mae'r Diafol gan Milton yn fawr ei nerth a'i ddylanwad, ond y mae yna Un y tu cefn sydd eto yn fwy, ac a wna iyw ddydd ei orchfygu : "Hurled headlong flaming from the eternal city." Y mae yn frwydr barhaus rhwng y ddau allu hyn, ac nid yw y diwedd eto.

Nid llawer o honom sydd wedi darllen gweithiau y bardd Italaidd Danté, ardderchoced ydynt, er fod ein cyfaill, Mr. Daniel Rees, wedi eu Cymreigio. Nid llawer sydd yn gwybod, 'chwaith, i ba raddau y mae Milton yn adsain caboledig o Danté.

Barddoni, fel y gwyddom, y mae Danté a Milton ; ond y mae yna sylwedd pwysig y tucefn." Ebe'r pregethwr : "Yr wyf fi wedi cael gormod o brofiad personol gyda'r Diafol i ro'i gollyngdod esmwyth iddo. Felly y rhan fwyaf o honom, fwy neu lai, eithr nid yw yr un fel y ceir ef yn y Credoau. Ceisio esponio profiad mae'r Credoau. Dyna wnai'r hen feirdd, a dyna wna'i beirdd diweddar hefyd, er cymaint y gwahaniaeth rhyngddynt.

Y mae Esgob Llundain wedi desgrifio cân Francis Thompson fel "One of the most tremendous poems ever written." Mae'r geiriau'n gryfion, ond nid yn rhy gryfion. Ynddi ceir desgrifiad o'r enaid yn ffoi rhag rhyw greadur dirgelaidd, cyfriniol, sy'n ei erlyn, erlyn, erlyn yn ddibaid. Ac fe rydd yr enaid, mewn math o adgof trist, adroddiad am yr erlyniad :—"Mi ffoais rhagddo'r nos, mi ffoais rhagddo'r dydd ; mi ffoais rhagddo drwy holl gonglau dirgel y blynyddoedd ; mi ffoais rhagddo drwy holl ddyrys droion fy meddwl fy hunan ; ac yn niwl fy nagrau mi ymguddiais rhagddo. Mi ddringais i fyny hyd lethrau gobaith, a thrachefn llithrais i lawr, i lawr, i gaddug tywyll ofn a braw, gan ffoi oddi wrth y cyflym draed, oedd yn dilyn, dilyn, ar fy ol.

A pharhau mae'r dirgelwch mawr, yn dilyn, dilyn, a llais mwy agos nag yw'r traed yn adrodd :—

"*Popeth wna'th fradychu di, yr wyt ti yn fy mradychu I.*"

Mae'r enaid mewn ofn a phryder tost, o hyd yn ceisio rhyw fan i ymguddio :—

"Hwnt i derfynau'r byd r'wyn ffoi, gan gyffwrdd euraidd byrth y ser, a churo am ymguddle'n umrhyw fan ; gan frysio, brysiais, gan ddal wrth chwibanus fwng pob gwynt ; ond gan beth a wnawn, y Traed wnai'm dilyn, a'r Llais uwchlaw wnai lefain—"*Nid oes dim a'th gysgoda di, yr hwn ni wnei 'nghysgodi I.*"

Mae'n ildio, ac mewn anobaith i allu dianc, fe geisia'r enaid gysgod tu cefn i wyneb gwiyw neu fenyw, neu o fewn llygaid y plant bach, ac ymddengys rhywbeth yn dweyd :—

"Mae rhai'n o leiaf i mi, i mi! Edrychais arnynt gyda dyddordeb. Ond fel yr oedd y llygaid ieuainc yn ymdecau, a'r atebion yn dechreu dyfod i'r amlwg, dyna'r angylion yn eu plicio oddi wrthyf gerfydd y gwallt."

Mewn siomedigaeth, mae'n troi unwaith eto at blant eraill natur :—

"Mi dynais follt dirgelion natur. Mi wyddwn yr holl arwyddion ar wyneb gwyllt yr wybren ; mi wyddwn sut mae'r cymylau'n codi. Pob peth a enir, marw y mae. Gwnaethum hwy yn ffurfiau, goleu neu dywyll, i gyfateb i nodweddion amrywiol fy meddwl, yn llawen neu yn drist, fel y byddai'r tywydd. Fe wylai'r nefoedd a minnau gyda'n gilydd."

Na, nid oedd Natur ond "llysfam dlawd," heb ganddi ddim i ddiwallu fy angen, a'r Llais ddaw eto yu fuan-ach, "*Wele, ni wna dim dy foddloni di, yr hwn ni wnei'm boddloni I.*"

O'r diwedd, fe deimla ei hunan wedi ei lwyr orchfygu. Erys i ddisgwyl beth ddaw nesaf. Ac ebe fe :—

"Yr wyf yn gwbl ddiamddiffyn.
Yn ngwylltineb fy ieuenctid, siglais
yr oriau colofnog, a thynais fy mywyd
ar fy mhen.

Fy ieuenctid a orwedda'n farw. . .
Och fi! Rhaid! Dragwyddol Drefn-
ydd!
A raid it' losgi'r pren cyn gelli ysgrif-
enu ag ef. . .
Ac wele'r Udgorn eto ac eto yn seinio
Oddi ar lwyfanau Tragwyddoldeb!

Ac yn awr, pan mae balchder a
gobaith wedi cefnu arno, mae yn
dechreu darllen beth mae'r Udgorn
yn ei ddywedyd. Y Llais fel sŵn
dyfroedd lawer sy'n llefaru unwaith
eto :—

A yw dy ddaear wedi ei anafu,
Ei dorri'n yffon a'i amharu?
Wele, popeth ffy oddiwrthyt ti,
Can's ffoi 'rwyt ti oddiwrthyf fi!
Paham y rhaid i neb dy garu di?
Mae caru dyn yn gofyn am deilyng-
dod dyn.
Sut y teilyngu di? Och fi! Ni
wyddost fawr,
Mor annheilwng o unrhyw gariad yr
wyt ti!
Pwy gei di i'th garu, druan gwael,
Ond Fi, dim ond Fi?
Yr oll a gym'rais oddiwrthyt ti,
Ni chym'rais ef er dy niwed;
Ond yn hytrach fel y ceisi ef yn fy
mreichiau
Yr hyn y tybia dy blentyn ei fod wedi
ei golli,
'Rwyf wedi ei storio iti gartref,
Cyfod, cydia yn fy llaw, a thyred.

Mae'r erlynydd dirgel yn aros yn
ymyl yr enaid, a'r caddug dychryn-
llyd yn profi, wedi'r cwbl, nad yw ond

Cysgod ei law Ef wedi ei estyn allan
yn gariadus.

Rhoddir canlyniad y rhedegfa
cyfriniol yn ngeiriau olaf y canlynydd
ofnadwy :—

Ah! anwylaf, dallaf, gwanaf,
Ti wyf Efe yr hwn a geisiaist!
Ti'r hwn a'm gyrraist I, a yrraist
gariad oddiwrthyt ti.

Dyna grynodeb amherffaith o'r
gân, mewn rhyddiaith, ac y mae'n
ddarlun byw o fywyd yr awdwr.
Mae'r wers yn amlwg yn y teitl—
Gwaedgi'r Nefoedd—gwaedgi oddi
wrth Dduw, cofier, nid oddi wrth
Ddiafol. Yr oedd yr erlyniad mae'n
wir, drwy Uffern, ac o Uffern, os
mynner, ond yr Uffern hwnnw maes
llywodraeth Duw, ac nid y Diafol
oedd. Mae'r gân yn fath o esponiad
diweddar ar yr hen destun Hebreig :

Os dringaf i'r Nefoedd, yno yr wyt Ti;
Os cyweiriaf fy ngwely yn Uffern,
wele Di yno.

Ar yr un pryd mae'n ddarlun byw
o fywyd y bardd. Ganwyd Francis
Thomson yn 1852, o rieni Pabyddol,
y rhai a fynnent wneud meddyg o
hono; ond yr oedd ei dueddiadau yn
gryf yn nghyfeiriad llenyddiaeth.
Pan welsant hynny, diarddelasant ef,
a throisant ef allan i wynebu'r byd
heb geiniog yn ei boced. Penderfynodd gymryd tramp i Lundain yn
y gobaith am gael rhyw orchwyl a
ddygai o leiaf foddion cynhaliaeth
iddo. Bu'n fynych yn mron llewygu
a syrthio ar y ffordd o eisieu bwyd.
Ar ol hynny treuliodd saith neu wyth
mlynedd mewn dygn dlodi. Syrthiodd i lwybrau drwg. Gorchfygwyd
ef gan yr awydd am y ddiod feddwol,
a gwaeth na hynny, os oes lle, am
opium. O'r diwedd, daeth dwylaw
caredig o hyd iddo, yn isel ei gyflwr,
yn gwerthu pensilau o ddrws i ddrws.
Yn 48 oed bu farw o'r ddarfodedigaeth yn nghartref caredig y Meynell's.
Gadawodd ar ei ol gyfres o farddoniaeth, cynnyrch, gan mwyaf, y pedair
neu bum' mlynedd diweddaf, y rhai
sydd heddyw yn tynu sylw mawr.
A'r holl amser hyn yr oedd Gwaedgi'r
Nefoedd, nid Uffern, ar ei ol!

Os oes yna Ddiafol yn bod, nid
oes lle iddo yn Uffern. Meddiennir
yr orsedd honno gan arall. Y
Cariad Anfeidrol sydd yn erlyn yr
enaid, yn gweinyddu fflangell cyd-

wybod, yn ennynu fflamiau cywilydd, ac yn achosi'r holl wendidau a'r trueni sydd yn ganlyniad Pechod.

Ac mae Gwaedgi'r Nefoedd yn erlyn cenedloedd yn ogystal ag unigolion. Nid oes dim a ddichon rwystro'r Ewyllys Dragwyddol sydd yn gorfodi cenedloedd fel unigolion i ildio i ddeddf cariad, ac i roddi i fyny eu pryderon i'r Trugaredd Tragwyddol, yn erbyn yr hwn ni ddichon arfogaeth tir na mor dycio dim!

T.L.R.

LLYTHYR DIDDOROL O'R AMERICA.

Hynaws Olygydd,

Crefaf oddiar eich llaw am ofod i'r Englynion yma gael ymddangos ar wyneb anwyl YR YMOFYNYDD. Mae gofod YR YMOFYNYDD yn brin iawn, gwn hyny yn eithaf da. Ond mae y Patriarch o Dancoed yn haeddu y blodyn hwn o wead yr Awen Americanaidd, er dangos y parch oedd iddo tu arall i'r môr. Tra ar ymweliad a Chymru yn ddiweddar cefais y pleser o adnewyddu yr hen adnabyddiaeth a'r Parch. John Davies, Tancoed, a hynny ym mis Medi, 1919. Yr oedd Davies yn rhoddi fyny gyda'i nai yn y 'Pluf' (*Feathers*); a minnau gyda'm nith, gweddw Capt. Griffiths. Cawsom lawer i ymgom gyda'n gilydd. Deuais i ddeall yn fuan mai ei brif astudiaeth oedd Athroniaeth yn ei gwahanol agweddau. Yr oedd wedi ymgyfathrach cryn lawer a gweithiau yr Athronwyr Almaenaidd. Credaf ei fod yn dda yn yr oll ag oedd wedi ei astudio. Gofynais iddo, os oedd wedi ymgynyg at farddoniaeth erioed? Dywedai, 'nad oedd.' Ond, meddai, 'yr wyf wedi gweld tipyn o'ch gwaith chwi, Dafydd, a chredaf ei fod yn weddol dda. Ond nid wyf wedi astudio dim ar farddoniaeth erioed: nis gallaf farnu. Os byddwch byw ar fy ol gwnewch anfon darn o farddoniaeth—caeth neu rydd, fel coffa am danaf i'r YMOFYNYDD. Iankee oedd y *typist*; nid yw yn deall yr un gair o Gymraeg. Bu yn amser caled rhyngom ein dau. Mae fy iechyd wedi tori lawr fel nas gallaf ddefnyddio pin ac inc. Felly rhoddais hwynt mewn *type*. Bydd yn llai o ofid i chwi a'r cysodydd. Yr oeddwn o gred uchel am Mr. Davies ar hyd fy oes hirfaith. Yr wyf yn ei gofio yn dda, pryd y dechreuodd bregethu yn Alltblacca, tua'r flwyddyn 1863 neu 1864. Yr oedd fy anwyliaid, nhad a mam yn aelodau yno, pryd y daeth y Parch. John Davies yn weinidog i Alltblacca. O'i law ef y derbyniodd fy nhad a mam y sacrament olaf cyn ymadael o'r anial. Felly, nis gellir fy meio am feddwl yn dda am yr arwr o Dancoed.

ATGOF UWCH ANGOF

Am y Parch. John Davies, o Dancoed, plwyf Llanwenog, Ceredigion. Bu farw yn 87 mlwydd oed, wedi bod yn weinidog yn y Bryn ac Alltblaca dros hanner cant o flynyddoedd. Bu yno cyhyd nes ei enwi 'Yr hen Weinidog.' Am gerdded 'doedd ail iddo. 'Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig.'

Wylodd y Bryn ac Alltblaca
Am farw sydyn y dyn da,—
Dyn fu a dawn ei fywyd
Ar raddfa aur y ddau fyd,
Bu a'i lwydd heb ail iddo,
Yn hael frawd annwyl y fro;
Ar ddwy droed cerddai o'i dref,
Ar ddwydroed cerddai adref;

Ond, aeth pedwartroed weithian
A grym ei oes i'r gro mân,—
Gwely di-boen gwaelod bedd
I'n gwr enwog yw'r annedd.

Gwelyddwyd ein goleuddoeth-o Dan-
Y dyn cu cywirddoeth ; [coed,
Ei rinwedd welai'r annoeth,
A'i synnwyr da synnai'r doeth.

Dear me, pryder a'm medd—o' roddi
Gwr hyddysg i'r ceufedd ;
Hael Anian cofia'i annedd,
Troswyf fi trwsia ei fedd.

Hir oesi wnaeth ym mhreswyl—ei
Dduw Dad
Harddai'i dy bob egwyl ;
Selog oedd ar Sul a gwyl,
Dyna'i hanes—dyn annwyl.

Nodwedd "Yr hen Weinidog"—oedd
Yn rhwydd i'r newynog ; [rhoddi
Rhow'd y diddan glân ei glog
Yn wr gwyn i âr Gwenog.

Trwyddo bu'n Gymro hyd garn—iach
ei ffordd,
Ni chyffyrddai rhagfarn ;
O'i Dancoed y dyn cadarn
Yn gywir fu—gwr o farn.

Yn gyson ei haelioni—estynai
Ei ysten rhag tlodi ;
Eu helynt fyddai'n holi
Eto a chais sut y'ch chwi.

Oedd arwr mewn gwyddorau,—y
Roddai mewn byr eiriau; [raddeg
Glew wr oedd yn eglurhau
'R hyn na welir yn olau.

Angel was efengyl hedd,—arwr bro,
Yng ngro'r Bryn a orwedd ;
Ohono daw'n y diwedd
I'w dda hoen ar "newydd wedd."

Uwch alaeth caiff ddychwelyd—o
Hir y fynwent oerllyd ; [hunedd
Hyd hynny nid â ennyd-heb ei aeth
Galara hiraeth ar glawr ei weryd.

Iach oedfa fydd uwch adfyd—inni oll
Yn nydd yr adferyd ;
Ac O ! urddas y cwrddyd
Ar oriel fawr yr ail fyd.

Mason City,
Iowa, *U.S.A.*,
Hydref, *1924*.

D. J. JONES.
(Dewi Gwenog).

PAUL — AMDDIFFYNYDD RHYDDID YSBRYDOL.

Yr anhawster yn ysgrifeniadau Paul yw gwybod beth a amcana wneud. Ymresyma gyda difrifwch a dwyster dirfawr, gyda thân ac hyawdledd digymar ; ond i ba amcan? Beth a geisia brofi? Pwy a geisia argyhoeddi? Pwy ydynt ei wrthwynebwyr, a pham y gwrthwynebant ef? Mae y rhai yma'n gwestiynau y byddai'n dda inni allu eu hateb.

Y cyfnod cyntaf ym mywyd Paul fel Cristion oedd ei droedigaeth—y cyfnewidiad llwyr hwnnw, nid yn unig yn ei safle allanol, ond yn ei argyhoeddiadau mewnol mwyaf bywiol. Golygai hyn roddi i fyny y gobaith o ddyfod yn feddiannol ar dangnefedd drwy weithredoedd crefyddol allanol, ac yn lle hyn caffael bywyd ysbrydol drwy ffydd yn Iesu fel cyfrwng cariad Duw i'w holl blant. Y profiad dwfn hwn oedd wrth wraidd ei weithgarwch dilynol, a phenderfynodd hyn ymdrechion ei fywyd. Ni ddylid tybied i Paul gyraedd safon feddyliol yr egwyddor hon ar unwaith ar ol ei droedigaeth ; treuliodd o leiaf dair blynedd yn Arabia. Sut y treuliodd ef yr amser

hynny? Nid oes ond un ffordd i esbonio ei reswm dros aros cyhyd yn segur, pe segur hefyd. Yr oedd yn meddwl. Yr oedd angen hyn arno er boddlonrwydd personol, ac er ei alluogi i bregethu i eraill, i feddu syniad clir am grefydd; i wybod y berthynas rhwng y gyfundrefn Iddewig ag eiddo Iesu; i wybod ym mha ystyr oedd Iesu y Crist, a sut oedd ef i'w bregethu fel y Crist. Yn fyr, yr oedd ef yn ddiwinydd, a safai mewn angen am ddiwinyddiaeth, a thebyg mae yn ystod y tair blynedd a dreuliwyd ganddo yn Arabia y ffurfiwyd gan Paul ei ddiwynyddiaeth a gafodd y fath ddylanwad ar ddynolryw. Datblygodd yn ei feddwl y gred ardderchog a gyfnewidiodd athrawiaeth Iddewig i grefydd yr holl fyd.

Yna efe a ddaeth i Jerusalem, a gwelodd yr Apostolion, a chafodd fod yr Eglwys Gristionogol yn y lle yn llwyddiannus, yn heddychol, ac yn rhydd oddiwrth erledigaeth. Ac eto, yr oedd Paul, ar yr amser hwn, yr hwn a ddadleuai'n gyhoeddus a'r Groegwyr, yn Jerusalem, mewn perygl o'i fywyd. Canlynwyr Brenin Herod oedd yr Iddewon hyn, ac hawlient mai efe oedd gwir Fessia'r Iddewon, gan ei fod yn gyfaill Rhufain, gallai efe amddiffyn yr Iddewon a'u crefydd oddiwrth y Rhufeiniaid, a rhoddi iddynt gyflawnder heddwch. Cyffriodd Paul eu llid trwy wadu nas gallai y fath ormes-deyrn bydol o gwbl fod y gwir frenin ysbrydol oedd i ddyfod Ond ar ol i Paul adael Jerusalem, ni flinwyd yr eglwysi am beth amser gan Herod.

Yn awr, cwyd hyn i fyny ddyrysbwnc diddorol iawn. Sut y bu mor fuan wedi marwolaeth Iesu, a groeshoeliwyd gan y Sanhedrim Iddewig am hawlio ei fod y Messia, a phan yr oeddynt mor llidiog wrth Stephan nes ei osod i farwolaeth, ac yr oeddynt mor chwerw yn erbyn Paul fel y bu raid iddo adael Jerusalem a myned mor bell a Tharsus i osgoi cael ei ladd — y caniateid i Petr, Iago, ac Ioan aros yno ac adeiladu i fyny Eglwys. Y rheswm yn ddiau oedd, yr ystyrient Eglwys Petr, Iago ac Ioan yn sect Iddewig, yn credu ac yn cydymffurfio a defodau, a seremoniau Iddewig; ond yng Nghristionogaeth Iesu, Stephan, a Phaul, gwelent symudiad ag oedd i ddinistrio Iddewaeth a rhoi crefydd arall yn ei lle.

Ond yr oedd yna rywbeth yn rhagor na hyn. Y ddwy blaid fawr ymhlith yr Iddewon oeddynt y Phariseaid, i'r hwn y perthynai yr ysgrifenyddion, y doctoriaid, a'r dysgedigion, a'r llall oedd y Saduceaid, i'r hwn y perthynai'r Archoffeiriaid, a'r llywodraethwyr. Yr oedd y Phariseaid a'r Saduceaid mewn ymrafael ynghylch Atgyfodiad y Corff ac Anfarwoldeb yr Enaid. Ac wedi myned o'r Iesu, nid ofnai y Phariseaid ef yn hwy, a chroesawent yr athrawiaeth o'i atgyfodiad fel cynhorthwy iddynt yn erbyn y Saduceaid. Gan hynny, yn y Sanhedrim o dan arweiniad Gamaliel, amddiffynodd y Phariseaid Petr ac Ioan, a thrwy eu dylanwad nerthol hwy diogelwyd hwynt.

Ond yr oedd yna blaid arall yn y gymdeithas Gristionogol, na chytunent a Phaul; a dywedent hwy Na! mae Paul yn *wrong*. Nid yw'n ddigon credu yng Nghrist. Mae hynny oll yn ddigon da, ond mae'n rhaid dod hefyd yn aelodau o'r Eglwys Iddewig. Mae i'r Eglwys honno gyfansoddiad a threfniant. Ni ddywedodd Iesu'n unlle y gwnai ef ddileu crefydd ardderchog Moses; yn y gwirhwyneb, dywedodd, "Na thybiwch fy nyfod i dorri y gyfraith, neu y proffwydi—nid ä un iod nac un tipyn o'r gyfraith heibio, hyd oni chwblaer oll" Sut y baidd Paul wneud yr hyn ni wnaeth Iesu? Beth yw ei awdurdod? Nid yw ef yn un o'r deuddeg Apostol. Ni phenodwyd ef, fel hwy, yn ystod bywyd Iesu. Peth newydd yw Eglwys Paul—ni chlywyd am dani hyd ddoe; mae'r eiddom ni'n hybarch gydag awdurdod canrifoedd lawer o'r tu cefn iddi, ac addefai Paul iddi ddyfod drwy ysbrydol-

iaeth yr Ysbryd Sanctaidd. Beth, ynte, oedd ei ateb ef i ymresymiad y Cristionogion Iddewig? Sut oedd ef yn alluog i wrthsefyll a gorchfygu y fath apel? Gwnaeth hyn drwy fyned i lawr yn ddyfnach, a myned i fyny'n uwch, na'i wrthwynebwyr. Gorchfygodd eu gofyniadau am ufudd-dod seremoniol drwy ufudd-dod uwch ac helaethach. Gofynnai am fwy o grefydd, nid llai. Hawliai ryddid, fel y gallai dynion ddyfod yn blant Duw'n fwy a mwy. Nis gofynnai am lai i Grist, ond mwy. Dyna natur pob diwygiad gwirioneddol a pharhaol bob amser. Tyr ieuau, tyn ymaith gadwynau, fel y gallo dynion fyned yn uwch i fyny.

Ni fodlonid Paul ag ateb syml i'r rhai a boenai feddyliau ei ddychweledigion trwy ddywedyd wrthynt ei bod yn rhaid iddynt uno a'r Eglwys Iddewig; nad oedd iachawdwriaeth heb hyn. Ni wnaeth ef hyd yn oed gyfeirio at eiriau o'r fath yma o enau Crist, "Y pur o galon a welant Dduw," na geiriau Iesu wrth y wraig o Samaria, "Y mae'r awr yn dyfod pryd nad addoloch y Tad nac ar y mynydd hwn nac yn Jerusalem." Mae'r hwn a addolo y Tad yn *rhywle*, mewn ysbryd a gwirionedd, yn addoli y Tad yn iawn. Gallasai Paul ddyfynu ymadroddion o'r natur yna gan Iesu i ategu ei olygiadau ei hunan. Ond gwelai ef yr egwyddor islaw'r ymadroddion hyn oll, a datblygai hi, ac felly torrai sail syniad cyffredinol.

Dywedodd i bob pwrpas: "Ni wna gweithredoedd o unryw natur beri i Dduw ein caru—ni wna ein bedyddio, na'n enwaedu, nag uno a'r Eglwys Iddewig neu'r Eglwys Gristionogol, na rhoddi ein holl dda i'r tlodion, na rhoddi ein cyrff i'w llosgi, &c., &c., beri i Dduw ein caru. Nis gallwn yn fwy wneud Duw i'n caru felly, nag y gallwn wneud i'r haul ddisgleirio. Agorwn ein llygaid ac edrychwn ar yr haul; dyna'r oll allwn ei wneud. Agorwn ein calon, a gwelwn gariad Duw; dyna'r cwbl. Carodd Duw ni cyn ein geni; câr Duw ni pan yn agos ato a phan ym mhell iawn oddiwrtho. Credwn hyn; O, credwn hyn! A phan y credwn hyn yn unig, gwna ein helpu i *wneud* popeth.

Y fath oedd swm ymresymiad yr Apostol Paul. Ai nid yw'n wir eto,—yn wir yn awr, ac yn wir bob amser?

Credu mewn cariad, dynol a dwyfol,—a ffynnon pob cariad yw Duw, dyma'r hyn a achub ei enaid. Hyn yw ei nerth, ei lawenydd, ei gân, a'i dangnefedd.

Os y gwnawn ni agor ein llygaid, a'n clustiau, a'n calon i weled a chredu y cariad gwynfydedig anfeidrol a lifa allan yn gyson o fynwes yr Un perffaith, yna'r ydym yn ddiogel. Yna ni a ddechreuwn weithio, ac ufuddhau, ac â ein bywyd ymlaen ar hyd y llwybrau a ordeiniodd Duw, fel y teithia y planedau heb frysio na gorffwyso ar hyd eu ffyrdd diamddiffyn drwy ddyfnderoedd ehangder.

Ffydd gan hynny yw'r hyn a'n hachub ni; canys ffydd yw y gwreiddyn, gweithredoedd yw y canghennau.

Pan ddaeth Iesu, credai y byd mewn duwiau gallu a dychryn. Credai mewn duwiau a ymyrent yn ormesol mewn materion dynol, ond arferol a adawent i bopeth fyned ei ffordd ei hun. Yr oedd yr Iddewon wedi codi ychydig yn uwch; credent hwy mewn cyfiawnder dwyfol; yr oedd ganddynt ffydd mewn deddf. Os gwnaent yn iawn gwobrwyid hwynt; os yn *wrong*, cosbid hwynt.

Yna pan ddaeth Iesu ac a ddywedodd "Fy Nhad"—pan ddelai daioni, dywedai ef, "Fy Nhad a'i henfyn"—rhyfeddai dynion, a dywedent, "Wele, mae ef yn Fab Duw!" "Ie," atebai eraill, "Y Mab Duw," yr unig fab mewn gwirionedd, a fu gan Dduw hyd yma ymhlith dynion. Nid oes neb yn myned at y Tad ond trwyddo ef. Gwelwch ef, a chwi a welwch y Tad. Ymddengys ei fod ef yn byw yn mynwes y Tad yr holl amser. Daw y ddeddf drwy Moses, ond daw

cariad grasol a nefol drwy Iesu Grist.

"Dewch a chyfranogwch o'm ffydd i," meddai Iesu, "a byddwch feibion hefyd. "Nid fy nghrefydd i yw'r hon a ddysgaf, ond eiddo Duw. Nid fy eiddo yw'r Athrawiaeth, ond ei eiddo Ef yr hwn a'm hanfonodd. Y neb a'm gwel i, ni'm gwel i, ond a wel y Tad. Nid wyf fi ond drych yn unig i adlewyrchu gwirionedd a chariad Duw. Na feddyliwch ynghylch y drych—meddyliwch am yr hyn a welwch yn y drych.

Pan ddaeth Iesu, yn byw y bywyd yma o ymddiried perffaith mewn cariad dwyfol, tadol, a mamol, daeth bywyd newydd i galonnau Credinwyr. Bwytäai y lliaws eu hymborth mewn llawenydd ac unplygrwydd calon. Yr oeddent yn ddiogel yn yr ymddiried mabaidd hynny—diogel rhag amheuaeth, rhag ofn, rhag y pechodau gauedig o unigedd ac amheuaeth.

Ynghanol fferdod rhewllyd byd o ormes a deddf, yr oeddent hwy'n llawn heulwen a thangnefedd, yn mynwes y Tad. Dyna paham yr unai pobl â hwynt, er pob peryglon, am eu bod wedi dyfod atynt i'r tangnefedd nefol hon drwy ffydd syml yn Iesu Grist.

Ond fe adfywiodd yr hen 'ysbryd Iddewig yn eneidiau dychweledigion Iddewig, a dechreuasant sefydlu pendefigaeth mewn crefydd, a dywedent, "Gwnewch fel y gwnawn ni, a diogelach fyddwch." Yna dywedodd Paul, "Na, nid oes wahaniaeth rhwng Iddew a Groegwr. Mae'r un Arglwydd yn gyfoethog i bawb a alwant arno. Credwch ynddo ef." Mae ffydd yn gweithio drwy gariad, nid drwy ofn. "Sefwch gan hynny'n y rhyddid a'r hon y rhyddhaodd Crist ni; ac na ddalier chwi drachefn dan iau caethiwed."

C.C.

(Pw barhau).

MARWGOION.

DRWG iawn oedd genym glywed y dydd o'r blaen am farw Evan Evans, diweddar ysgolfeistr, Llanfihangel-ar-Arth, yr hyn a ddigwyddodd ar y 15fed o Hydref, yn 88 oed. Genedigol oedd o Gilcennin; derbyniodd ei addysg yn ysgol Pontsian (nid Pontshaen, cofier) gyda'r diweddar Barch. Thomas Thomas. Ar ol ymadael oddiyno, bu'n cadw ysgol ddyddiol mewn amryw leoedd—New Inn, Pencader, a Llanfihangel—am oddeutu triugain mlynedd Ymneillduodd i fywyd anghyhoedd ychydig flynyddoedd yn ol, a threuliodd dymor ei neilltuaeth yn yr ardal olaf a enwyd. Er mai Eglwyswr ydoedd o ran ei gysylltiadau crefyddol, eto yr oedd yn Eglwyswr o feddwl a chydymdeimlad eang a rhyddfrydig. Gellir priodoli hyn, yn ddiau, i'w gysylltiad boreol ag ysgol Pontsian, lle y daeth i gyffyrddiad â nifer luosog o fechgyn o darddiad Undodaidd. Am Ysgol Pontsian yr oedd ganddo ystôr didrai o ystoriau difyr. Llawer gwaith yr addawodd ysgrifennu cyfres o erthyglau i'r YMOFYNYDD i adrodd ei brofiad tra fu yno. Ymddangosodd un neu ddwy o honynt—ysgrifau diddorol a thra daillenadwy. Ymhellach na hyn, ni ddaeth ei fwriad i ben; er colled dirfawr belled ag y mae hanes y sefydliad adnabyddus yn Mhontsian yn myn'd. Y mae nifer y rhai fu yn yr ysgol yno yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn. Ai nid posibl i rywun o honynt ysgrifennu cyfres o ysgrifau—dyweder y Parch. R. C.

Jones, Llanbedr. Prawf o'r diddordeb yn yr enwad Undodaidd oedd—ei fod yn dderbyniwr cyson o'r YMOFYNYDD; nid yn unig yn dderbyniwr, ond hefyd yn ddarllenwr o hono; darllenai bob gair o hono—o ddechreu'r ddalen gyntaf hyd diwedd y ddalen olaf. Ychydig iawn o Undodiaid fedr ddyweyd hyn. Clywais ef lawer gwaith yn dweyd ei fod yn edrych ymlaen yn awyddus at adeg ei ymddangosiad bob mis. Nid yn unig derbyniai'r YMOFYNYDD, ond fe'i danfonai, ar ol iddo ef orffen âg ef, i gyfaill iddo yn yr Amerig—gweinidog gyda'r Annibynwyr,—yr hwn a'i gwerthfawrogai'n fawr. Esiampl deilwng o efelychiad yw hon. Pe'i dilynid, ni chlywid achwyn am fychander cylchrediad yr YMOFYNYDD bellach. Deuthum i gyffyrddiad aml âg ef yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf, a phrofais ei gwmni yn fuddiol ac adeiladol. Yr oedd yr elfen ddifyr yn elfen amlwg o'i gymeriad, a hoffai stori gystal a neb; ac yr oedd ganddo ystôr o ystoriau ei hun. Gwnaeth wasanaeth gwerthfawr yn ei ddydd fel athro; rhedodd ei yrfa'n gywir "gan edrych ar Iesu," a bu ei ddiwedd yn un tangnefeddus. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Eglwys Llanfihangel. Gadawodd ddwy ferch ac un mab, ac amryw wyrion. "Da, was da a ffyddlon."

MANION AC HANESION.

GEIRIADUR BEIBLAIDD.—Y mae yr uchod y gwaith pwysicaf ar y Beibl a gyhoeddwyd erioed yn y Gymraeg. Yn ystod yr hanner canrif ddiweddaf bu chwyldroad mwy yn null a chynnwys gwybodaeth Feiblaidd na dim a fu yn ein hanes o'r blaen. Cred pawb bellach y dylid esbonio'r Beibl yn ei oleuni ei hunan, ac nid trwy ddrychau credoau ac athrawiaethau. Ond hyd yn hyn, nid oes gan y darllenydd Cymreig foddion i gymryd golwg gyflawn ar y wybodaeth newydd am y Beibl. Dyna paham yr ymgymerodd Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru â pharatoi Geiriadur Beiblaidd—gwaith newydd a rydd grynhodeb o ffrwyth Ysgolheigiaeth ddiweddar ar y Beibl Ysgrifenwyd iddo gan ysgolheigion ac ysgrifenwyr goreu'r genedl. Dyma gyfle i aelodau Ysgolion Sul Cymru na chawsant mohono erioed o'r blaen. Annogwn bawb i brynu hwn; nid yw ond deunaw ceiniog y rhifyn, yn cynnwys 80 tudalen. Cyhoeddir cyfrol y mis am tua blwyddyn a hanner.

GROEGWYR — GROEGIAID. — Nid bob amser y cedwir yr ystyr yn glir. Y Groegwyr oedd brodorion gwlad Groeg. A dylai Groegiaid sefyll am yr Iddewon a lefarent yr iaith Roeg. Yn gyffelyb yn y Saesneg, *Greeks* yw y brodorion, y *natives*; tra mae *Grecians* yn golygu Iddewon oedd wedi cymryd arnynt iaith ac arferion, a gelwid hwy yn Helenistiaid. Yr Hebreaid oedd Iddewon Palestina, y rhai a ganlynent wrth iaith ac arferion eu tadau.

PRIODASAU.—Dymunem alw sylw ein gohebwyr at y ffaith nad ydym yn cofnodi Priodasau weinyddir yn Swyddfa'r Cofrestrydd yn YR YMOFYNYDD Y mae hwn yn benderfyniad wnawd bedair blynedd ar hugain yn ol. Drwg gennym fod un neu ddwy o rheiny wedi dianc i mewn yn ddiweddar, ond o ddamwain, ac nid o fwriad, y bu hynny.

FE ddywed Tomos Prys o Blas Iolyn, mai efe a Cadben William Middleton, a Thomas Frost oedd y rhai cyntaf i smocio tybacco yn Llundain.

MAE'R coiff yn gofyn pedwar peth —awyr, goleu, bwyd a diod; a'r enaid a ofyn—gwaith, chwarae, cariad ac addoliad.

FE ddywed un awdwr, yn daraw-iadol iawn, fod pob dyn yn *omnibus* yn yr hwn y mae ei hynafiaid ym marchogaeth.

CAFODD Evan Rhydderch, tadcu y Parch. Timothy Davies (1711–1771), gweinidog y Cilgwyn a Chaeronen, ei gymryd yn garcharor i Lwydlo yn 1662, a'i ddirwyo o £30, am gynnal gwasanaeth crefyddol yn ei dŷ.

"AUDRY."

Doh F. WILLIE WILLIAMS, Trebanos.

:l₁ | d :t₁ :l₁ | d :t₁ :l₁ | d :t₁ :d | r :m :d | t₁ :d :t₁ | l₁ :—:l₁
:l₁ | d :t₁ :l₁ | l₁ :se₁ :l₁ | l₁ :se₁ :m₁ | s₁ :s₁ :l₁ | se₁ :l₁ :se₁ | l₁ :—:l₁
:l₁ | d :t₁ :l₁ | m :m :m | m.re :m :d | d.t₁ :d :m | f :m :r | d :—:l₁
:l₁ | d :t₁ :l₁ | l₁ :r :d | l₁ :m₁ :l₁ | s₁ :d :d | r :m :m₁ | l₁ :—:l₁

d | :t₁ :l₁ | d :t₁ :l₁ | d :t₁ :d | r :m :d | r :d :r | m :—:s
d | :t₁ :l₁ | l₁ :se₁ :l₁ | l₁ :se₁ :m₁.fe₁ | s₁ :s₁ :s₁ | s₁ :l₁ :t₁ | d :—:t₁
d | :t₁ :l₁ | m :m :m | m.re :m :d | d.t₁ :d :m | s :m :s | s :—:s
d | :t₁ :l₁ | l₁ :r :d | l₁ :m₁ :l₁ | s₁ :d :d | t₁ :l₁ :s₁ | d :—:s₁

s :r :m | f :d :r | m :s :l | l :m :f | s :d :r | m :—:s
t.d :r :d | t₁.l₁ :s₁ :s₁ | s₁ :d :d | d :d :d | d :d :l₁ | t₁ :d :f
r :s :s | f :m :r | m :m :f | f :s :f | m :m :l | se :l :t
s₁.l₁ :t₁ :d | r :d :t₁ | d :d :f₁ | f :d :r | d :l₁ :f | m :—:r

d' :t :l | s :l :s | f :m :m | m :f :m | r :d :t₁ | l₁ :—:—
m :m :d | d :d :d | t₁ :d :r | d :r :d | l₁ :l₁ :se₁ | l₁ :—:—
l :s :f | m :f :s | s :s :se | l :l :l | f :m :r | d :—:—
d :m :f | d :l₁ :m | r :d :t₁ | l₁ :t₁ :d | r :m :m₁ | l₁ :—:—

O Arglwydd, a Thad ein gobeithion,
A noddwr y ddaear i gyd,
Dod gariad helaethach i'n calon,
Ac ysbryd o hedd yn ein bryd;
Gad inni o'th bwer dihysbydd,
Y pwer a'n cyfyd i'r làn,
Nes teimlo ohonom yn ddedwydd,
Gael Duw yn y nefoedd yn rhan.

O Arglwydd, ein Ior a'n diddanwch,
O gwrando ein hymbil yn awr,
Am feddiant o'r dwyfol brydferthwch,
A'n gwna ni fel Iesu yn fawr,—
Yn fawr mewn gwasanaeth parodol,
Duedda ddynoliaeth i'r làn;
Dug hynny gysuron parhaol,
A Duw yn y nefoedd yn rhan.

BANOS.

I. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS,
. . . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —

Banking Facilities

The Midland Bank, the greatest organisation of its kind in the world, offers a complete banking service through 2,200 branches in Great Britain and Ireland, and the additional advantages of perfect security and finest rates.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; The London City and Midland Executor and Trustee Co. Ltd.